YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 1.] IONAWR, 1920. [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
NODION Y MIS.
GWELEDIGAETH MIRZA.
BLAENCANAID, &c.
COLOFN "MAES LLAFUR 1919—1920."
Y DYN IESU.
"TI A BWYSWYD."
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MÂNION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS :

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side ; (*b*) The Vocational Side ; (*c*) The Cultural Side ; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. - - - Postage, 3d.

Obtainable from—

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD. IONAWR, 1920. [CYF. XX. RHIF 1.

AR ADEN FFYDD.

CLOD EIN TADAU.

(*Aralleiriad o'r Apocrypha*).

I wŷr o fri rhoi clod a wnawn,
Ac adgoffhawn ein tadau ;
Dyrchafwn gân o fawl i Dduw
Am dystion byw o'i radau.

Bu rhai yn dywysogion gwlad,
Bu rhai mewn câd yn rymus ;
Bu rhai'n broffwydi pethau gwell
Mewn oesau pell mwy hapus.

Arweinwyr cu, deallus, coeth,
Athrawon doethion oeddynt
I'r werin ; ac yn awr i'n mysg
Gair addysg a geir iddynt.

Clod i gerddorion—ddawnus hil,
A'u hymchwil am alawon ;
Am ysgrifennu odlau'n stor
Nawdd Ior ar awenyddion.

Bu ambell un, llawn hoen a hedd,
Mewn gwych aneddau'n trigo ;
Yn oes ei blant, ei glod oedd fawr,
Hyd atom daw'r clod eto.

Ond eraill fyrdd, hwynthwy a'u
I ebargofiant suddodd ; [plant
Maent fel pe nas ganesid oll,
O lewyrch coll a diffodd.

Ac eto nid ynt heb goffâd
Mae'r nefol Dad yn cofio
Pob meddwl, gair a gweithred dda
Heb goll na diffodd arno.

Bydd plant eu plant, holl oesau'n
Tu mewn y gwir gyfamod ; [tir,
A safant hwy pan syrthio'r ser
Diameu'n dêr diymod.

Gan hynny canwn fawl i Dduw
Am dystion byw o'i radau ;
O oes i oes rhoi'r clod a wnawn
Pan adgoffhawn ein tadau.

D. R.

Llundain,
Gwyl yr holl Saint, 1918.

NODION Y MIS.

Y MAE'N arfer gau fasnachwyr, ar ddiwedd blwyddyn, i dafoli eu llyfrau a chyfrif eu colledion a'u henillion, er gwybod a'i boddhaol ynte anfoddhaol eu sefyllfa; hefyd, ar ddechreu blwyddyn gwnant gynlluniau am y dyfodol. Arferiad ddoeth yw hon—un anhebgorol i bob masnachwr gonest a da. Gwaith hawdd iawn yw rhedeg i ddinistr drwy gymeryd pethau yn ganiataol—mor gryf yw atyniad y llynclyn mawr! Faint o honom, tybed, a geidw gyfrif o'n cyflwr ysbrydol a moesol? Yn sicr, peth anhebgorol yw hyn i bob Cristion da. Bydded i ni, ynte, gyfrif colledion ac enillion ysbrydol y flwyddyn, er gwybod a'i iach ynte afiach ein heneidiau. Y mae Un a geidw ein cyfrifon yn Llyfr y Bywyd, ac ofer yw meddwl y bydd i'n anghofrwydd ni ddileu dyledion y gorffennol.

* * *

Bydded i ni archwilio'n onest yr hyn a gofnodwyd ar lechres y galon a'r enaid yn ystod y deuddeg mis diweddaf, a chymharu ein gwasanaeth i'r ddau fyd—yr ysbrydol a'r materol. Ofnwn y bydd i'r fantol bwyso'n drwm ar du y materol. Os felly, ceisiwn ofyn y rheswm am hyn, a pheidiwn a chymylu'r gwir ag esgusodion gwag, nid yw esgusodion ond us yn y cloriannau.

* * *

Dywedodd yr Iesu am wledd fawr i'r hon y gwahoddwyd llawer o ddynion cyfrifol, ond pan ddaeth y dydd, yn lle cyrchu i'r wledd, danfon esgusodion a wnaethant. Dywedodd y cyntaf ei fod newydd brynu tyddyn, a rhaid oedd iddo ofalu am hwnnw. Gallem feddwl ei fod yn ofni y diflannai'r tyddyn i'r gwagle awyrol oni fyddai ei lygad craff ef arno beunydd a beunos. Nid peth afreidiol heddyw yw ceisio argyhoeddi tyddynwyr cefnog ein gwlad ni, nad yw deddfau sefydlog y bydysawd yn debyg o fethu os codant hwy eu llygaid weithiau oddiar y tyddyn i'r nefoedd—nid i ddarllen y tywydd ond i gymuno a Duw! Gwelsom lawer amaethwr golygus yng Nghered-igion, ar foreu Sul teg o Fai, allan yn y meusydd, a'r gwlith yn fendithion perlog o'r nefoedd ar y glaswellt, a'r haul yn tywynu gwres tyfiant ar y cnydau, a daeth rhywbeth fel hyn i'n meddwl—gwell fyddai i'r dynion hyn fynd i'r Eglwys neu'r Capel i feddwl am eu heneidiau ac am Dduw na damsang y borfa a chadw'r haul rhag y glaswellt! Peth trist yw gweld dyn yn meddiannu tyddyn llydan ac enaid cul. Ryw ddydd, bydd i gofiadur Llyfr y Bywyd ofyn iddo, nid beth yw maintioli y tyddyn adawodd ar y ddaear, ond beth yw pwysau ei enaid yng nghlorian y nefoedd.

* * *

Un arall a fynnai esgusodi ei hun am ei fod newydd brynu gŷr o ychain, a rhaid oedd iddo ofalu am danynt. Cof gennym glywed y

diweddar Barch. T. Lloyd Jones yn dweyd, mewn pregeth, fod llawer o amaethwyr ein gwlad ni yn arswydo wrth feddwl am blant Israel, yn y dyddiau gynt, yn addoli'r llo aur, " a hwythau," meddai'r pregethwr, " yn gwneuthur peth llawn mor wrthun, sef addoli'r lloi sydd yn prancio ar y dolydd." Dyna, mewn gwirionedd, grefydd llawer un ar y Sul yn y dyddiau hyn ! Peth difrifol iawn, onide, yw cwrdd a dyn eilw ei hun yn Gristion, ac eto yn fwy hoff o fref bustach nag o udgorn yr Efengyl ! !

* * *

Esgusawd y trydydd oedd ddarfod iddo briodi gwraig, a thrwy hynny teimlai fod holl bwysau'r bydysawd ar ei ysgwyddau. Dyma esgus llawer un dros beidio mynychu'r addoliad yn rheolaidd. Prin yw ein cydymdeimlad a'r dyn a gais barchu ei wraig drwy amharchu Duw ac esgeuluso ei enaid ei hun. Yn sicr, nid yw priodi yn rheswm digonol dros droi yn fydol, ond credwn fod hyn yn rheswm da dros geisio eangu'r serchiadau a cheisio am nawdd Duw i'w gadw ef a'i deulu rhag drwg. Buddiol yw cofio hefyd fod angen dylanwadau bendithiol crefydd ar wraig, nad pa mor rinweddol fyddo hi.

* * *

Y mae'r ffordd i uffern wedi ei phalmantu ag esgusodion gwael a bwriadau ofer. Unwaith eto, gofynnwn i'n darllenwyr i sylwi'n graff ar ffaeleddau'r flwyddyn yng ngoleu'r gwirionedd, fel y byddo'r gydwybod yn glir er yn ddrylliog o'r herwydd.

* * *

Dechreu blwyddyn yw'r cyfnod i droi tudalen newydd, ac i ffurfio bwriadau gwell a mwy o wydnedd ynddynt. Un o wirioneddau athroniaeth yw nad yw'r gorffennol tuhwnt adferiad, a'r unig ffordd i'w adfer yw llunio a sylweddoli bwriadau da am y dyfodol. Y mae bywyd yn llawn o bethau da Duw—y goreu eto'n ol—heb eu sylweddoli. Perygl y byd yw difaterwch at bethau ardderchocaf bywyd. I lawer o honom nid yw pechodau heintus yn berygl—y maent yn rhy wrthun ac erchyll i fod yn beryglus, ond yr ydym oll yn agored i ddifaterwch a materolaeth, ac y mae hyn yn bechod hefyd i'r rhai sydd wedi cael cipolwg ar ardderchogrwydd y bywyd ysbrydol a ddatguddiwyd gan Dduw yng Nghrist Iesu.

* * *

Dymunwn i'n darllenwyr FLWYDDYN NEWYDD DDA, yn llawn o fendithion y nefoedd wedi eu teilyngu gan ddwyfol ras a chariad yng nghalon dyn.

GWELEDIGAETH MIRZA.

UN o alegoriau prydferthaf yr iaith Saesneg yw eiddo Joseph Addison, a eilw yn "Weledigaeth Mirza."

Dwyreiniwr oedd Mirza, a esgynnodd ryw ddydd i'r bryniau sydd ar bwys Bagdad, i ddathlu un o wyliau ei gyndeidiau. Ar ben y bryn, wedi myfyrdod a gweddi, syrthiodd i hunan-fyfyrdod ar wagedd y bywyd dynol. Yn sicr, meddai ynddo ei hun, nid yw dyn ond cysgod, a bywyd onid breuddwyd. Wrth feddwl fel hyn, gwelai ar graig gyfagos angel yn niwyg bugail, ac offeryn cerdd yn ei law. Yn fuan, cododd yr angel yr offeryn at ei wefusau, gan ddechreu canu alawon melodaidd a melus odiaeth, megis yr alawon nefolaidd a genir i roesawu eneidiau y gwynfydedigion i Baradwys, i symud creithiau dioddefaint angeu, ac i'w paratoi ar gyfer yr hawddfyd perffaith.

Neshaodd Mirza at y cerddor fel un wedi ei syfrdanu, a syrthiodd wrth ei draed mewn dagrau. Arweiniodd yr angel ef i gribyn uchaf y graig, a dywedodd wrtho: "Tafl dy olwg i'r dwyrain, a dywed wrthyf beth weli. "Gwelaf," meddai yntau, "ddyffryn mawr a llif aruthrol yn rhedeg ar hyd-ddo. Dyffryn adfyd yw'r dyffryn a weli," meddai'r angel, a rhan o eigion tragwyddoldeb yw'r cenllif a red drwyddo." "Paham," gofynnai Mirza, "y llif y dyfroedd allan o niwl tew ar y tu arall?" "Nid yw'r hyn a weli," meddai'r angel, "ond y rhan o dragwyddoldeb a elwir amser. Edrych eto a weli di rywbeth ar y dyfroedd. "Gwelaf,' atebodd Mirza, "bont ac iddi driugain a deg o fwäu cyfain, a llawer bwa toredig ar y pen pellaf, nes rhifo oddeutu cant. Gwelaf hefyd dorfeydd o bobl yn croesi ar hyd y bont, a chwmwl tew yn hongian ar y ddau ben iddi." O syllu'n graff gwelodd Mirza lawer o'r teithwyr yn syrthio drwy'r bont i'r dwfr redai odditani, drwy ddorau cudd, ar y rhai y sangai llawer yn ddifeddwl gan ddiflannu ar unwaith i'r llifeiriant. Yr oedd y dorau cudd yn lliosog iawn ar ran agosaf y bont, a llawer wrth ymddangos o'r cwmwl yn sangu arnynt ac yn diflannu. Nid oedd cymaint tua'r hanner, ond ar y pen pellaf yr oeddynt yn niferus iawn eto. Ychydig oedd nifer y bobl a gyrhaeddent mewn llesgedd a blinder y bwäu toredig ar eithaf y bont. Un ar ol un, diflannent hwythau hefyd i'r llifeiriant.

O weled llawer yn syrthio drwodd yng nghanol llawenydd a rhialtwoh, llanwyd calon Mirza o dristwch. Syrthiai rhai a'i llygaid tua'r nejoedd mewn gweddi, ac eraill wrth redeg a cheisio gafaelu am deganau diwerth. Llawer oedd y rhai a gwaewffyn yn eu dwylaw a wthient i'r dorau angeuol niferoedd a aethent yn ddiogel pe cawsent chwareu teg.

"Och," meddai Mirza, "nid yw dyn ond gwegi, wedi ei dynghedu i adfyd a marwolaeth, i'w ddirboeni mewn bywyd, ac i'w lyncu yn angeu!" Cyffyrddodd hyn a theimladau'r angel: "nac edrych mwyach ar droion chwerw bywyd, a thrychineb angeu," meddai, "ond tro dy olwg tua'r niwl tew i'r hwn y rhed y llifeiriant gan

gludo yn ei fynwes holl genedlaethau'r ddaear." Ar hyn trodd Mirza ei olwg i'r cyfeiriad hwnnw, a gwelodd y niwl yn ymagor a'r llifeiriant yn ymwahanu yn ddau. Ar un ran, gorweddai'r caddug eto, ond yn y rhan arall gwelai eigion mawr yn dryfrith o ynysoedd teg yn llawn o'r ffrwythau a'r blodeu tecaf, a'r dyfroedd yn disgleirio o'u hamgylch. Yno gwelai y gwaredigion mewn gwisgoedd ardderchog a choronbleth ar bob arlais, mewn gwynfyd perffaith rhwng y coed, y blodeu a'r ffrydiau, a chlywai gynghanedd cân adar, treigliad ffrydiau, offerynnau cerdd a lleisiau dynol.

Llawenychodd ei galon wrth weld y fath olygfa a chlywed y fath beroriaeth. Dymunodd am adenydd eryr i hedfan i'r tiriogaethau hyfryd, ond dywedodd yr angel wrtho nad oedd modd cyrraedd ynysoedd y gwynfyd ond drwy borth angeu; rhaid cerdded pont bywyd, syrthio i'r llifeiriant a diflannu i'r niwl cyn cyrraedd yr ynysoedd teg. Yno mae cartrefi tragwyddol dynion da, a phob math ar fwynder i fodloni pob amrywiol chwaeth.

"Ai adfyd yw bywyd, ai rhywbeth i'w ofni yw angeu?" gofynnai'r angel, "a hwy yn arwain i'r fath wynfyd a gogoniant? Na ddywed mwy mai gwagedd yw bywyd, a thruenus yw dyn sydd a'r fath dragwyddoldeb yn ei aros."

Alegori diwedd neu ddechreu blwyddyn yw hon. Yr ydym wedi croesi un bwa ychwanegol ar y daith, ond yn ystod y flwyddyn diflannodd llawer o'n cyd-deithwyr drwy ryw "geledig gul adwy" i'r llifeiriant mawr, parth a'r niwl tew. Trist yw gweld cymaint yn syrthio drwodd ar ddechreu'r daith. Er holl ymffrost gwyddor a meddyginiaeth, cymharol ychydig yw'r rhai welant ddyddiau'r addewid. Yn yr oes oleu hon, aberthir miloedd o fabanod bob blwyddyn ar allor anwybodaeth, esgeulusdod, a phechod. Gwaith caled i fugail eglwys yw gweinyddu yn angladd plentyn, a dweyd gair o gysur wrth y rhieni, ac efe'n sicr yn ei feddwl mai anwybodaeth ac efalle esgeulusdod oedd achos angau'r bychan mewn modd anuniongyrchol!

Arswydus yw meddwl gymaint dorrwyd i lawr y blynyddau olaf hyn drwy fidogau a magnelau eu cyd-ddynion! Bron nad yw'r bywyd dynol wedi colli ei gysegredigrwydd yng ngolwg y byd o'r herwydd!

Wrth feddwl am y dorf ddiflanedig, wrth golli câr neu gyfaill mynwesol, cysur ar y daith yw taflu golwg dros y ganllaw yng nghyfeiriad rhediad afon amser, a syllu'n ddyfal i'r niwl tew, oni theneua'r caddug a rhoddi i ni drem ar ogoniant yr ynysoedd gwynfydedig. Llygad ffydd yn unig all dreiddio'r tywyllwch, ac ofnwn fod yr oes faterol hon yn colli golwg ar y trigfannau dedwydd. Nawdd Duw a hwyrddydd tawel i'r rhai sydd eisioes hwnt i ffin yr addewid, a phan ddaw'r fordaith olaf tawel a gogoneddus fyddo'r cyfnos, a bydded iddynt deimlo "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau" cariad Un a'n deil yn ddiogel uwch y rhyferthwy oni chyrhaeddont y trigfannau dedwydd.

GWYLIEDYDD Y WAWR.

BLAENCANAID, A'R FFORDD TUAG YNO.

[Traddodwyd sylwedd yr Anerchiad uchod yn nghyfarfod "Cymdeithas Ymdrechol" Hen Dy Cwrdd, Aberdar, Tachwedd 10, 1919.]

Gorffennaf 12, 1919, cychwynodd Cymrodorion Aberdar ar ymdaith i dalu ymweliad â Blaencanaid, hen gynullfan Anghydffurfwyr Merthyr ac Aberdar yn y dyddiau gynt. Mae'r enw yn cynnwys llawer mwy nag y mae haneswyr wedi ganiatau iddo hyd yn hyn, ac yn awgrymu'r ddyledswydd o holi am faes crefyddol y gwyddis rhy ychydig am dano. Wrth fyn'd ato o Aberdar, deuir i gyffyddiad â llawer sydd yn ddyddorol.

Dyna hen fferm y Werfa, cartrefle un o deuluoedd hynaf a pharchusaf plwyf Aberdar un amser. Yr oedd Samuel Rees, y Werfa, yn ddyn mawr iawn yn ei ddydd. Iddo ef, gyda Richard Rees, Thomas Davies, a Jenkin Lewis yr ymddiriedwyd ail brydles yr Hen Dy Cwrdd, 1796—prydles mil ond un, neu 999 o flwyddi, gan yr arlwydd, Richard Richards. Wrth gwrs yr oedd Mr. Rees yn aelod yn yr Hen Dy Cwrdd. Yr un teulu oedd Reesiaid y Gamlyn a Reesiaid y Cwrt, Merthyr. Pan fyddai eisieu cyflawni rhyw orchwyl mawr yn Aberdar, Samuel Rees* oedd y dyn i'w wneuthur. Efe, gydag un arall, Rees Philip, o'r Cwm, fu'n offerynnol i dynnu'r tai un-nos ar y cwmin i lawr, pan oedd y rhai oedd yn byw ynddynt, drwy eu hymddygiad gwarthus, wedi myn'd yn rhy ddrwg i'w goddef. Y ddau ddyn hyn hefyd ddarfu fyn'd i gyfraith â'r Marquis of Bute ar ran y plwyfolion, yn nghylch yr hawl i gwmin Hirwain. Dygwyd y gyfraith yn mlaen yn Henffordd, yn 1790, a chollodd y Marquis.

Yr oeddwn yn adwaen hen wraig fu ar wasanaeth yn y Werfa, a gallwn feddwl wrth ei sgwrs hi eu bod yn byw yno mewn cryn dipyn o steil. Gallaswn adrodd llawer, ond nid yw gofod y Gol. yn caniatau. Mae un peth nas gallaf beidio a'i adrodd. Ar y Sul, pan fyddai *joint* o gig, neu wydd, neu dwrci, i'w bobi, yr oedd yno hen ariferiad, nad oes cof am dano fe allai heddyw. Yr oedd yno beiriant pobi—*turnspit*—ac yr oedd hwnnw yn cael ei weithio gan gi bach. Yn fynych, pan welai'r ci bach y darpariadau yn myn'd yn mlaen, fe ddiflannai ar unwaith, ac ni ddeuid o hyd iddo heb lawer o drafferth. Nid rhyfedd. Nid gwaith bach oedd troi'r peiriant am awr o amser.

Fe oddefir i mi adrodd un stori arall am y Werfa. Rywbeth llai, feallai, na chan' mlynedd yn ol, aeth prydlesi (*Title Deeds*) yr Hen Dy Cwrdd i golli, ac ni wyddai neb yn mha le yr oeddynt. Teimlid yn flin oblegid hynny. Y pryd hwnnw, un William Morgan gynrychiolai deulu'r Werfa. Cofiaf am dano yn hen wr yn mynychu'r Hen Dy Cwrdd. Ar ol hir ofid a blinder, meddyliodd Mr. Morgan y byddai yn werth y drafferth iddo ef wneud ymchwiliad yn mhlith y lluaws "gweithredoedd" yn y Werfa. Gwnaeth hynny, ac fe gafwyd y prydlesi, er mawr lawenydd i'r aelodau.

Fe oddefir i mi air wrth basio yn y fan hon. Os yw y darllenydd yn aelod eglwys, a fedr efe ddweyd yn mha le mae prydles yr eglwys. Os na wyr, holed, gan ei fod yn bwysig. Mae un peth arall yn ymgynnyg i mi—Beth am y *Trustees?* Cofier fod colli'r *Trustees* yn peryglu per-

*Bu farw Samuel Rees tua 1827.

chenogaeth yr adeilad. Ni fydd neb o'r aelodau yn foddlon gweld y capel yn syrthio allan o'u gafael, ac yn mynd i feddiant perchen y tir. Am hynny holer, deffroer. Collodd Eglwys Craig-y-Fargod eu hawl i'r capel oherwydd esgeuluso talu'r rent o geiniog y flwyddyn.

Symudwn yn mlaen. Ychydig yn uwch i fyny na'r Werfa mae'r Wersyllfa rows yr enw iddi. Ystyr sill gyntaf yr enw yw *rhyfel*, tebyg i'r Saesneg *war*, a'r Ffrengig *Guerre*. Mae'r Wersyllfa o ran ffurf yn debyg i'r lleuad ar ei chwarter. Nid oes dim llawer i'w weld, ac ni wyddis dim yn sicr am ei hanes. Gall fod yn rhywbeth barotowyd tua'r amser y pasiodd byddin Oliver Cromwell drwy'r Cwm—yr adeg yr ymladdwyd brwydr St. Ffagan, ger Caerdydd, Mai 8, 1648.

Gerllaw y mae un o'r lluaws *Cernydd* sydd mor gyffredin ar hyd pen y mynydd. Pan ddarfu i'r "Naturalist Society" ymweld a'r fan, Ebrill 6, 1888, fe agorwyd y garn, a deuwyd o hyd i'r gladdgist —math o focs carreg, gwag ar y pryd, ond unwaith wedi bod yn orweddle corff marw. Nid oedd y gist ond rhyw bedair troedfedd wrth dair, ac felly ni allai'r corff orwedd ynddo ar ei hyd, eithr megis ar ei eistedd, a'i wyneb dybiaf tua'r Dwyrain. Ffordd arall i ddelio a chyrff y marw yn yr hen amser oedd eu llosgi, a gosod y llwch mewn *Urn*—math o lestr pridd. Ger llaw, deuwn at yr hen ffordd Rufeinig. Nid oes llawer i'w weld ynddi, ond y mae'n ddyddorol oblegid ei hynafiaeth, ac oblegid y sawl a'i gwnaeth yn agos i ddwy fil o flynyddau yn ol.

Ond tua Blaencanaid mae ein cyrchfa. Nid yw yn y golwg eto. Y mae mewn man dirgel, neilldu-edig, ac ni chawn ei weld nes bron ar ei bwys. Y son boreuaf sydd gennym am grefydd yn yr ardal yw yr hyn ddywed Malkin yn ei "History of South Wales," ar sail Iolo Morganwg, fod un Tomos Llewelyn, Glyneithinog, yn y Rhigos yn arfer pregethu ar hyd ac ar draws y wlad, lle bynnag y caffai gyfleusdra. Yr oedd yr offeiriaid yn y cyffredin y pryd hwnnw yn esgeuluso eu dyledswyddau. Eu esgeulusdod hwy oedd cyfleusdra Tomos Llewelyn, a dangosai zel a brwdfrydedd gyda'r gwaith. Cyfieithai ranau o Feibl Tindal at ei wasanaeth ei hunan, a darllenai hwy i glywedigaeth ei gynulleidfa. Tyrai'r lluoedd ar ei ol, a dywedir fod y cynulliadau weithiau yn rhifo o 300 i 600 o bobl. Nid oedd yn bosibl i'r rhai hyn oll gwrdd yn yr un ty. Cynhelid y gwasanaeth yn yr awyr agored, yn unrhyw fan dirgel, er mwyn diogelwch, oblegid yr oedd yr erledigaeth yn chwerw, fel y bu raid iddynt wrth wylwyr yn barhaus i rybuddio o unrhyw berygl. Nid oedd capelau i'w cael y pryd hwnnw, nac am hir amser ar ol hynny. Cynhelid y gwasanaeth yn gyffredin mewn tai annedd. Cawn enw dau y cynhelid gwasanaeth yn eu tai, sef ty Hywel Rhys Philip, a thy Isaac John Morgan. Mae'n bosibl mae Blaencanaid oedd un o'r rhai hyn. Cyfarfyddai'r Crynwyr, yn ddiweddarach fe allai, yn nhai Jenkyn Thomas, Henry Thomas, a Lewis Beck. Ceir llawer o farddoniaeth Tomos Llewelyn yn yr Amgueddfa Brydeinig—a pheth yn YR YMOFYNYDD 1881, &c.

Prawf arall fod Ymneilldu aeth yn yr ardal yn fore yw llythyr y Parch. Nicholas Jones, offeiriad plwyf Merthyr Tydfil 1640—1662. Achwyna yn dost ar ymddygiad rhai o'r Ymneilldu wyr, ac nid, fe allai, heb reswm. Mae yn syndod fel mae gosod dyn mewn awdurdod yn ei osod mewn sefyllfa i fod yn ormeswr. Mae'r llythyr yn hir, eithr ni ddyfynwn ond yr hyn sydd at ein pwrpas.* — "Y mae gennym ni, yn mhlwyf Merthyr Tydfil, gymdeithas o wyr a gwragedd, y

*Gellir gweld y llythyr yn gyfan yn Wilkins' "History of Merthyr."

rhai, er's amser maith, sydd wedi cynnal cyfarfodydd anghyfreithlon, yn y rhai y maent wedi trefnu ffurflywodraeth eglwysig yn ol eu hewyllys eu hunain, yn groes i'r deddfau a'r ordeiniadau." Oddiwrth y geiriau *er's amser maith* gallwn gasglu nad yw 1620, y flwyddyn a gyfrifir yn gyffredin fel adeg cychwyniad y mudiad anghydffurfiol, ddim yn mhell o fod yn iawn. Ar gefn hyn gallwn ychwanegu nad oedd cynulliadau ymneilliduol ddim yn groes i'r deddfau a'r ordeiniadau o 1640—1662, canys yr oedd y mesurau yn erbyn rhyddid addoliad wedi eu diddymu yr amser hwnnw, gan hynny rhaid i mi gasglu mae at ryw amser cyn 1640 y cyfeiria'r offeiriad wrth ddefnyddio'r geiriau crybwylledig.

Eto, fe ddywedir ar sail Henry Maurice, 1675, mae yr eglwysi ymneilliduol yn Merthyr ac Abertawe oedd y rhai cyntaf yn Morganwg (Broadmead Record, tud. 511).

Cyfaddefir fel ffaith hanesyddol mae Eglwys Llanfaches, yn Mynwy, yr hon gorffolwyd yn 1639, oedd yr eglwys ymneilluol gyntaf yn Nghymru. Ond cofier fod cynulliadau o bobl yn cyfarfod a'u gilydd i addoli mewn amryw fannau o Gymru cyn yr amser hwnnw, er heb fod wedi eu ffurfio yn eglwysi rheoladd. Yr oedd Eglwys Blaencanaid yn un o'r rhai hynny. Eglwys gymysg oedd — yn cynwys Presbyteriaid, Annibynwyr, Bedyddwyr, a Chrynwyr.

R. J. J

(*I'w barhau.*)

COLOFN "MAES LLAFUR 1919—1920."

Crynhodeb o bennod gyntaf "*Life in Palestine.*"

4. Nodweddau anianyddol y wlad.

(*a*) Ar lan Mor y Canoldir ceir lleiniau cul o wastatir.

(*b*) Yna, cyfyd y tir yn raddol tua'r dwyrain i gryn uchter; a disgynna drachefn yn dra serth i ddyffryn yr Iorddonen.

(*c*) Rhed yr ucheldiroedd hyn yn un llinell o'r gogledd i'r deheu, gyda'r eithriad o ddyffryn Jezreel, yr hwn a dyrr ar draws y wlad o'r Mor ym mron hyd yr Iorddonen.

(*d*) Rhai o'r mynyddau uchelaf: Hermon, Ebal, Gerizim, Yr Olew-wydd, Hebron.

(*e*) Yr Iorddonen yw'r unig afon o bwys: tardd ym Mynydd Hermon yn amryw ffrydiau, y rhai a unant yn fuan; rhed tua'r deheu, trwy Lyn Merom, a Mor Galilea, i'r Mor Marw. Ei hyd: tua 200 milltir, os dilynir ei chwrs.

(*f*) Y mae dyffryn yr Iorddonen lawer îs na gwyneb y mor: Mor Galilea, 653 o droedfeddi; y Mor Marw, 1,300.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR • YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

Cyfres yr Ugeinfed Ganrif.

CYFROL 19.
1919.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

CYNHWYSIAD.

Adran yr Ysgol Sul, 32.
Ar Aden Ffydd, 1, 17, 33, 49, 65, 81, 97, 113, 145, 161, 177.
Arwr Du, 74.
Arwyr Disylw, 40.
Awdl y Gadair, Beirniadaethau, 136, 150.

Beiblau Mawrion y Byd, 171.

Barddoniaeth—
Adgofion, 1.
Ar y Ddaear Tangnefedd, 3.
Canmol heb Weniaeth, 49.
Cathle Heine, 36.
Cynulliad y Cysgodau, 113.
Diolch am Heddwch, 144.
Ebrill, 52.
Emyn, 81, 97, 104.
Emyn y Cynhauaf, 145.
Fy nerth i a berffeithir mewn gwendid, 33.
Fy Nghais, 144.
Henaint, 181.
Mewn dydd i ddod, 17.
Pro Patria, 166.
Saith Tymhor Dyn, 65.
Y Bluen Eira, 144.
Y Ddystaw Rwyf, 22.
Y Fronfraith, 79.
Y Garddwr, 68.
Ymlaen, 161.
Y Nod, 132.
Y Wennol, 138.
Yr Hen Flwyddyn, 177.

Cariad mwy na Chariad Mam, 85.
Casineb Duwinyddol, 184.
Cledlyn—Bardd Cenedlaethol 1919, 133, 149.
Clettwr Fawr, Adgofion am Ardal, 90, 123, 167.
Crefydd Ymarferol, 72.
Crefydd Gymariaethol, 139.
Cyflog Gweinidogion, 105.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion, 120.

Davies, Y Parch. W. J., 95.
Dewi Sant, Dydd Gwyl, 37.
Diolch am Heddwch, 153.
Duw yn Gofalu, A ydyw, 26.
Dyn fel Rheolwr, 118.

Emynau, 57.
Etholedigion Duw, 101.

Galwadau, 89.
Gohebiaethau, 105.
Gwareiddiad, Ai mantais ai anfantais yw? 98.
Gymanfa Gerddorol Gyntaf, Y, 105.
Gwas y Gwcw, 165.

Manion ac Hanesion, 15, 31, 48, 80, 96, 110, 127, 142, 159, 176, 189.
Marwgofion, 13, 28, 44, 61, 77, 92, 106, 124, 140, 157, 173, 188.
Maes Llafur, 160, 186.
Merrivale, Teulu, 55.
Mynd yn Hen, 7.

Nefoedd newydd a daear newydd, 18.
Nid fel Timotheus, 103.
Nodion y Mis, 34, 50, 66, 82, 114, 130, 162, 178.

Rhyfel, Ar ol y, 23.

Saf ar dy draed, 146.

Oddiar y Twr, 69.

Priodasau, 28, 106, 140, 157, 172, 188.

Testament Newydd, Ein, 2, 24, 40.

Undodiaid Enwog, 10.
Undodiaid yn Gristionogion, A yw, 4.
Undodiaeth, Hanner Can' Pwynt dros, 10.

Williams, Lewis Noah, 60.

Y Nos, 53.
Y Cyfarfodydd Blynyddol, 155.
Y Gawod Eira, 182.

(*g*) Y mae dyffryn yr Iorddonen yn un cymharol eang ; gynt, fe drinid y tir yn dda ; yn awr fe'i hesgeulusir.

GWERS V.—Ioan a Iesu. Darllener (1) Matt 3 : 1—3 ; 13—17 ; [(2) Marc 1 : 1—3 ; 9—11 ; (3) Luc 3 : 1—6 ; 15—18 ; 21, 22].

1. Rheswm Ioan dros bregethu edifeirwch : fod teyrnas nefoedd yn nesau.

2. Ystyr hyn : fod y Messiah (y Crist), y brenin disgwylid gan yr Iuddewon, ar ymddangos.

3. Parotoi'r ffordd ar gyfer ei ymddangosiad oedd gwaith Ioan—gwneud y bobl yn barod i'w dderbyn.

4. Felly, cymhwysa'r Efengylwyr eiriau'r proffwydi ato : "Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barotoa dy ffordd o'th flaen" (gwel Marc 1 : 2 ; a chymharer Mal. 3 : 1) ; "Llêf un yn llefain yn y diffaethwch, parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef" (gwel Marc 1 : 3 ; a chymharer Esaiah 40 : 3).

5. Bedyddiwyd y bobl a aethant allan ato gan Ioan "yn afon yr Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau."

6. Ym mhlith y rhai hyn yr oedd Iesu. Yr oedd son am Ioan wedi cyrhaedd i Nazareth, a chyffrowyd awydd yn Iesu i'w weled a'i glywed.

7. Dymunai Iesu gael ei fedyddio ; ond gwrthododd Ioan. "Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio gennyt ti," meddai, "ac a ddeui di ataf fi?"

8. Beth berodd i Ioan wrthod? Ni ellir dweyd. Ond tebyg fod Ioan yn adnabod Iesu cyn hyn, ac y teimlai nad oedd efe (Ioan) yn deilwng i'w fedyddio.

9. Ateb Iesu : "Gâd yr awrhon ; canys felly y mae yn weddus inni gyflawnu pob cyfiawnder."

10. "Yna, efe a adawodd iddo."

Nodyn.—Awgrymir gan Luc fod rhieni Ioan a Iesu yn gyfarwydd â'u gilydd, os nad yn berthynasau i'w gilydd (*Luc* 1 : 36 ; 39—42 ; 56). *Os felly, yr oedd Iesu eisioes yn adnabyddus i Ioan.*

Y DYN IESU.

Pe gallai unrhyw ddyn meddylgar, didwyll, fynd at yr Efengylau am y tro cyntaf, heb fod o dan ddylanwad traddodiadau'r gorffennol, na'u hategu gan fygythiadau cosp am anghrediniaeth, ni feddyliai byth fod yr hwn a ddarlunir yno yn ddim amgen na dyn da. Fe allai fod mewn tipyn o benbleth weithiau oherwydd ambell i ymadrodd, ond ar y cyfan fe deimlai fod y darlun yr un peth. Fe ddywedai :— "Dyma fywyd un a gychwynodd ei yrfa gyda'r penderfyniad i fod yn ffyddlon gyda gwaith ei Dad, ac a'i terfynodd trwy gyflwyno ei yspryd i ddwylaw'r Tad hwnnw." Fe ddywedai : Nid oedd y dyn da hwn ddim byth yn ymddangos fel un am osod ei hunan yn y ffrynt. Ymddangosai fel cennad y Tad yr hwn oedd oll yn oll iddo ef. Gweddiai ar Dduw ; dywedai ei fod wedi dyfod oddiwrth Dduw ; fod ei holl allu wedi dod oddiwrth Dduw ; dywedai nad oedd efe yn ddim o honno ei hun, a phrotestiai yn erbyn cael ei alw yn "dda," pan y gellid dwyn enw Duw i fewn. Gallai'r cyfryw berson weld hefyd fod Iesu yn hollol ymwybodol o'i wendidau, ac yn fynych yn agored am oriau i ddigalondid a thristwch ; ac iddo yn y diwedd dorri lawr gan ing ac anobaith, o dan y teimlad fod hyd yn oed Duw wedi ei adael. Fe dderbyniai'r cyfryw un, wrth edrych ar y cyfryw ddarlun, os na fyddai wedi ei ragfeddiannu gan ddychmygion ugain canrif mai'r Hollalluog Dduw oedd yr Iesu hwn gyda syndod.

Mae'r gwir Iesu yn wrthrych hanesyddol a gymer ei le yn hanes dyn am mae dyn oedd. Efe yw ein hesiampl, ein hysprydolydd mawr, am mai dyn oedd. Gorchfygodd Angau trwy ddangos nas gallai'r bedd ddim dal yr yspryd anfarwol, a gwnaeth hyn am mai dyn oedd. Fel hyn y daw yn *real* i ni, yn gennad oddiwrth Dduw, yn ddatguddiwr dyn, arweinydd mawr y byd yn mhob oes.

Y mae'r gwir Iesu, os deallir ef felly, yn cael ei ddwyn yn fwy byw ac yn agos atom. Saif am rywbeth, felly, fel un o honom ni. Perthyn i ddynoliaeth, a chynrychiola ddynoliaeth. Efe yw dadguddiwr Duw, am mai'r Tad, fel y dywedodd, a'i dysgodd ac a'i danfonodd. Efe yw dadguddiwr dyn, am ei fod yn gosod allan, yn ei berson ei hun, bosibiliadau dyn. Ei undeb a Duw, gallwn ei ddeall, fel ymostyngedig llwyr i ewyllys ei Dad. Gallwn hefyd ddeall ei undeb ei hunan a'i frodyr yn eu dibyniaeth ar Dduw, am ei fod yn perthyn i'r frawdoliaeth, fel un allai ddywedyd, "Yr wyf yn myned at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, &c."

Dylai y rhai a synnant wrth y sylwadau hyn ddarllen yr Efengylau drostynt eu hunain. Mae miloedd nad ynt erioed wedi gwneud hynny mewn gwir. Maent wedi etifeddu ryw syniadau, wedi clywed rhannau yn cael eu darllen. Wrth y cyfryw dywedwn : *Darllenwch yr Efengylau drosoch eich hunain.*

"TI A BWYSWYD."

Yr oedd y gweinidog o gartref, a gwr dieithr yn y pwlpud. Aeth hwnnw yn y blaen a'r gwasanaeth y gore a fedrai yn ddiamau. Cymrodd fel testun y geiriau uchod o lyfr Daniel. Yn mhen tipyn fe *sylwodd* fod rhai o'r presenolion yn mynd allan o un i un. Er mor darawiadol y testun, ac er mor garedig y pregethwr yn dyfod i geisio llanw yr adwy yn absenoldeb y gweinidog, ni feddai y rhai hyn ddigon o Gristnogaeth, na digon o foneddigeiddrwydd i'w rhwystro i daflu amarch ar y pregethwr a'i insultio. Nid dod i addoli Duw oeddynt wedi wneud, ond i addoli'r gweinidog. Gwael ddigon oedd eu syniad am wir grefydd; ond syniad rhy gyffredin yw. Mae'r pregethwr mawr yn gallu tynu tyrfaoedd—fel y dywed Islwyn:

"Trwy ryw sugndyniad rhyfedd iawn,
Fe geir y dyrfa lle ceir y dawn."

Gwir iawn, ond pa nifer ddaw i addoli Duw mewn gwirionedd, ac nid mewn ymddangosiad yn unig? Cofiaf ddarllen am Dr. Martineau, fod rhes hir o gerbydau y tu allan i'r capel, a'r capel ei hunan yn llawn; ac am Dr. Stopford Brooke yn gyffelyb: ond wedi i'r ddau farw, beth ddaeth o'r cynulleidfaoedd? Aethant i ffwrdd i chwilio am *dduw* arall i goglais eu clustiau a difyrru eu meddyliau gweigion. Gelwid rhai cyffelyb yn baganiaid yn yr amser gynt, neu eilun-addolwyr. Diflannodd y ddwy. Fe'u pwyswyd, ac fe'u cafwyd yn brin.

O ie, fe gofia'r darllenydd am destun y pregethwr y crybwyllwyd am dano ar y cyntaf, ac fe gofiodd hwnnw gyfleu eu destun at y gwrthgilwyr—Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin. Ebe fe—yr ydych wedi eich pwyso, gellwch fynd yn awr. Dywedir nad aeth dim un allan ar ol hynny.

S. N. S.

PRIODASAU.

AWST 30ain, yng Nghapel Brondeifi, gan y Gweinidog, yn ngwydd y Cofrestrydd (brawd y briodasferch) unwyd mewn glân briodas David Rees, mab Mrs. Rees, Ty'r Capel, Caersalem, a Jane Mary, merch ieuengaf Mrs. Davies, 4, Mill Street, Llanbedr.

Ein Dafydd ym Mrondeifi—a unwyd
I'w hynaws Jane Mary,
A cheisiwch haul i'ch oes chwi;
Boed wŷn o bob daioni.

DYDD NADOLIG, yng Nghapel y Graig, Llandyssul, gan y Gweinidog, unwyd mewn glân briodas, Tom, mab Mr. a Mrs. Thomas Evans, Sychbant, ger Gorrig, Llandyssul, a Alice, merch Mr. a Mrs. D. Thomas, Ffynnonwen, Tregroes.

MARWGOFION.

NOS cyn y Nadolig, 1917, collodd cynulleidfa yr Hen Dy Cwrdd un o'i haelodau mwyaf ffyddlon yn mherson Mrs. Mary Morgan, gwraig George Morgan, meiswn yn y lle, ac un o ddiaconiaid yr Hen Dy Cwrdd. Ganwyd Mrs. Morgan, yn Ffynonoer, Sir Aberteifi, a bu yn byw yn Cefncoed am 69 o flynyddoedd. Bu yn dihoeni yn hir cyn ymadael a byd y ddaear, a gadawodd ar ei hol briod, dri mab, a dwy ferch i alaru eu colled. Claddwyd ei gweddillion marwol yng Nghladdfa Eglwys Tabor, Cefncoed, ar y Sadwrn canlynol, Rhagfyr 29, 1917, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Carara Davies, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd, yn mhresenoldeb cynulliad mawr o drigolion y lle. Bu Mr. Morgan yn dosbarthu YR YMOFYNYDD yn yr Hen Dy Cwrdd am flynyddoedd, ac yr oedd Mrs. Morgan yn dilyn ein cyhoeddiad Undodaidd gyda sel.

HYDREF 26ain, yn 87 mlwydd oed, bu farw Daniel Jones (gynt o Pantgwyn) yn nhŷ ei ferch a'i tab ynghyfraith, No. 2, Railway Terrace, Cwmanne, Llanbedr. Yr oedd wedi gweld hir ddyddiau ac wedi mwynhau iechyd da hyd y diwedd bron. Gwr pwyllog a charedig ydoedd, addfwyn a gonest. Aelod ydoedd o Brondeifi, ond yr oedd y clyw wedi pallu er's blynyddau bellach. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Eglwys Llanwnen. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. O. Williams, ac yn yr Eglwys gan Ficer y plwyf. Gadawodd dair merch a llu o berthynasau ereill i wylo eu colled.

TACHWEDD 21, yn 14 oed, bu farw Judith Anne Kent, ger Capelygroes, gan adael mamgu, tad, brawd a pherthynasau agos ereill mewn galar dwys ar ei hol. Collodd ei mam pan yn ieuanc iawn, ac o hynny allan bu dan ofal ei thadcu a'i mamgu yn y lle uchod, a chafodd ganddynt bob gofal oedd yn eu gallu. Dechreuodd waelu tua blwyddyn yn ol; ar brydiau coleddid gobaith am ei hadferiad; ond yr oedd yn amlwg er's tipyn nad oedd adferiad i fod iddi. Yr oedd yn blentyn o dymer fwynaidd iawn, fel yr oedd pawb ddelai i gyffyrddiad a hi yn ei hoffi yn fawr. Trwy'r blynyddau bu yn hynod o ffyddlon yng Nghapelygroes—yn yr addoliad a'r Ysgol Sul; nid oedd byth yn absennol oddieithr fod afiechyd yn ei lluddias; a gwnelai ei rhan ym mhob peth cysylltiedig a'r achos. Yn y cyngherddau i'r milwyr yr oedd yn amlwg iawn—mewn canu ac adrodd; a medrai wneud pob un o honynt yn swynol ac effeithiol iawn; y cyngherdd i'w thad ym mis Tachwedd blwyddyn i'r diweddaf, oedd yr olaf iddi fod ynddo. Y mae ei symudiad mor gynnar wedi peri hiraeth, nid yn unig i'w pherthynasau, ond hefyd i bawb a'i hadnabyddent—yn blant a phobl mewn oed. Dydd Mawrth canlynol daearwyd yr hyn oedd farwol o honi yng Nghladdfa Capelygroes, pryd y daeth nifer liosog iawn ynghyd. Pregethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a chynorthwywyd gan y Parch. L. Williams, Alltyplaca. Rhoddodd aelodau'r ysgol *wreath* brydferth ar ei bedd, fel arwydd o'u parch iddi.

TACHWEDD 22, oedd dydd angladd Miss Ellen C. Jones, Hill Side, Wisconsin, U.D.A. Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i'r diweddar Barch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago, ac y mae llawer yn ei chofio hi a'i chwaer ar ymweliad a'r wlad hon rai blynyddau yn ol. Cadw ysgol i ferched ydoedd galwedigaeth y ddwy chwaer, a deallwn iddynt drwy eu defosiwn a'u hymroddiad wneud gwaith arderchog yn y cyfeiriad hwn. Cladd-

wyd ei rhan farwol hithau yn y fynwent fechan yn ymyl Unity Chapel, lle y mae nifer o'r teulu wedi eu claddu.

TACHWEDD 29, yn 23 oed, David Jones, mab Mr. a Mrs. Tom Jones, Laura House, Pontwely, Llandyssul. Ymunodd yr ymadawedig a'r fyddin yn gynnar yn 1915, a gwelodd wasanaeth hir yn Salonaica. Bu yn wael yno am dro, gan ddioddef oddiwrth y *malaria*. Yn gynnar y flwyddyn hon dychwelodd i'w gartref, a dychwelodd at ei waith, ond dioddefai o hyd oddiwrth ymosodiadau y dwymyn. Yr oedd "Daffo" fel yr adnabyddid ef gan ei gyfeillion yn fachgen ieuanc dymunol iawn, yn dawel ei ysbryd ac yn gywir ei rodiad. Yr oedd y cynhulliad lluosog gafodd y dydd Mercher dilynol yn arddangosiad o barch mawr ac o gydymdeimlad dwfn a'r teulu yn eu profedigaeth arw. Gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono ym mynwent Pantydefaid y dydd Mercher dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. J. Davies, Rheithor Bangor Teify, a'r Parch. T. Madoc Jones, Ficer, Llandyssul, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Arthur Thomas.

Y nos Sul dilynol, yng Nghapel y Graig, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol, pryd yr oedd y capel yn orlawn. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog. Cydymdeimlir yn fawr a'i rieni, ei frawd, a'i dair chwaer, ac eraill yn eu galar a'u colled.

RHAGFYR 9, yn 89 oed, Sarah Jones, Tanrhos, Llanwenog, gan adael dau fab, dwy ferch, wyrion a pherthynasau ereill mewn galar. Collodd yr ymadawedig ei phriod, Daniel Jones—yn Cefngrigiosfach yr oedd yn byw yr adeg hono—54 o flynyddoedd yn ol, a bu raid iddi weithio'n galed er dwyn ei phlant i fyny fel ag y gwnaeth. Bu'n llafurus cyhyd ag y parhaodd nerth ac iechyd, ac yr oedd iddi air da ymhlith ei chydnabod. Benyw dawel, ddiddig, ddarbodus ydoedd. Y Sadwrn dilynol daeth nifer luosog o gyfeillion a chymydogion ynghyd i hebrwng ei gweddillion i fynwent hên gapel Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. Davies, Lewis Williams a T. O. Williams. "Ti a gleddir mewn henaint teg."

MANION AC HANESION.

Y mae yn flin gennym fod amgylchiadau yn ein gorfodi i godi pris "Yr Ymofynydd" o ddwy geiniog i dair ceiniog y mis. Dyna oedd ei bris hyd o fewn ugain mlynedd yn ol pryd y gostyngwyd i ddwy. Cyhoeddir ef ar golled er ys sawl blwyddyn. Y mae pris papur, inc a llafur wedi ychwanegu cymaint yn ddiweddar fel na fedrwn fynd ymlaen yn hwy. Yr ydym o dan anfantais am nad oes i'r "Ymofynydd" gylchrediad helaeth. Gobeithio y gwneir ymdrech i ychwanegu ei gylchrediad yn 1920. Dyweded y gweinidogion air o'r pwlpud ar ei ran ar ddechreu'r flwyddyn, a bydded y dosbarthwyr yn effro i geisio am dderbynwyr newydd. Derbyniwch ein diolchgarwch gwresocaf am eich llafur o gariad.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—Y mae adroddiad Arholiad yr Ysgol Sul am 1918—19 newydd ddod i law oddiwrth yr ysgrifennydd, y Parch. D. Cellan Evans. Nifer y plant aeth drwy'r Arholiad yn llwyddiannus oedd fel y canlyn :—Safon I : Alltyplaca, 7 ; Brondeifi, 11 ; Bwlchyfadfa, 10 ; Capelybryn, 7 ; Capelygroes, 2 ; Cefncoedycymmer, 13 ; Ciliau, 3 ; Cribyn, 10 ; Llandyssul, 5 ; Trebanos, 2. Safon II : Alltyplaca, 3 ; Brondeifi, 6 ; Bwlchyfadfa, 2 ; Capelybryn, 7 ; Capelygroes, 5 ; Cefncoedycymmer, 6 ; Ciliau, 3 ; Cribyn, 6 ; Llandyssul, 3 ; Trebannos, 8. Cyfanrif o Morgannwg, 29 ; o Geredigion, 90 ; o'r oll o'r ysgolion (deg), 119. Enillwyd Bathodau fel y canlyn : Ceredigion — Safon II. — Bessie Davies, Brondeifi (85 o farciau allan o 100) ; Safon I.—David Ithel Davies, Llandyssul ; Evan David Davies, Brondeifi ; John Spencer Lloyd Evans, Capelybryn (y tri yn gydradd—90 o 100). Morgannwg—Safon II.—Haydn Morgan, Trebannos (86 o 100) ; Safon I.—Annie Lewis, Cefn (73 o 100). Danfonir y tystysgrifau i'r gwahanol ysgolion mor fuan ag y gellir.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Sadwrn, y Sul, a nos Lun, Tachwedd 29, 30 a Rhagfyr 1, cynhaliodd yr Eglwys uchod ei chyrddau pregethu. Cawd pregethau grymus gan y Parchn. L. G. Lewis, Adulam, Pontardawe ; Lewis Williams, Alltyplaca, ac Eric Davies, Pontypridd. Gwnawd casgliadau sylweddol i drysorfa'r Eglwys. Arhosodd un cymal o ymadrodd o un bregeth o eiddo yr olaf uchod ar fy meddwl, a phrydferth ydyw hi. Os y cofiaf yn iawn, dywed am grefydd mai hi ydyw enaid cywilydd. Tybed y gwnai Eric roddi i ni, trwy gyfrwng YR YMOFYNYDD, esboniad cyflawn o'r hyn a olyga efe yn y cymal uchod, fel y bydd i ddealldwriaeth ac adeiladaeth fyned rhagddynt law yn llaw? Gall ddcrbyn ein diolch ym mlaen llaw.—Da gennym roddi gwybod i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD fod ym mwriad yr Eglwys i gychwyn trysorfa i'r diben o barotoi i gael Organ i Gapel y Graig. Eiddunwn am gydsyniad a chydweithrediad pawb o'r aelodau. Ceir gair eto, ar ol i'r pwyllgor gyfarfod.

CAPELYGROES.—Nos Sul, Rhagfyr 7fed, cynhaliwyd cyngherdd yn y Capel uchod i'r diben o ddarparu maen coffa (*tablet*) er cof am y diweddar John Jones, Pantyronnen, wedi hynny o Canada, yr hwn a gollodd ei fywyd yn Ffrainc tua blwyddyn a hanner yn ol. Cymerwyd rhan yn y cyngherdd gan blant a phobl yr ardal, a chan gyfeillion o Gwitnewydd, Brynhafod, a Llanbedr. Arweiniwyd yn ddeheuig fel arfer gan Mr. Jones, C.M., Llanwnen, a chyfeiliwyd gan Miss Jenkins, Blaenwaunuchaf. Yr oedd y Capel yn orlawn, a chawd cyfarfod dymunol iawn. Awd drwy y gwasanaeth arweiniol gan y Parch. L. Williams, Alltyplaca.——Yn ddiweddar, y mae cynulleidfa Capelygroes wedi prynu'r tir dan y Capel a'r fynwent am £5 (neu £6 10s. a chynnwys y costau). Tuag at dalu'r swm hwn, yn ogystal a thuag at atgyweirio bedd-faen y diweddar Thomas Jenkins, o Rhydybannau, y mae Mrs. Morgan, Glanmydr, Cribyn, wedi casglu'r swm o £10 6s. fel y canlyn : Dr. Cluneglas Davies, Llanbedr, 10s.; Mrs. Davies a Mrs. Thomas, Ammanford, 10s ; Mrs. Saunders Davies, Felinfach, 5s.; Mrs. Davies, Dolwern, eto, 5s.; Mr. E. W. Davies, N. P. Bank, Amlwch, 5s.; Mr. T. Ll. Davies, N. P. Bank, Ebbw Vale, 5s.; Mr. T. M. Evans, Solicitor, Ammanford, 10s.; Mr. J. Moy Evans, Solicitor, Swansea, 10s.; Mrs. Evans, Garthwen, Mydroilyn, 10s.; Mrs. Evans, Pentrefelin, Oakford, 10s.; Mr. James Rhys Evans, N. P. Bank, Lampeter, 5s.; Mr. Evan Jenkins, Faversham, £1 ; Parch. E. E. Jenkins, Dunscar, Bolton, 10s.; Lady Glyn Jones, London, £1 1s.; Mrs. Jones, Eryl, Lampeter, 10s.; Mrs. Jones, Glanbran, Llansamlet, 10s.; Mrs. Captain

Jones, Aberayron, 10s.; Mrs. Morgan, Glanmydr, Cribyn, 10s.; Mrs. Thomas, Henfaes, Lampeter, 10s.; Mr. Evan Richards, Londonderry, 10s.; Mr. T. J. Thomas, Chemist, Faversham, 10s. Talwyd am y tir a'r costiau, £6 10s.; i'r Stonecutter, £2 8s.; taliadau bychain, 7s. 6c.; y cyfanswm yn £9 5s. 6c., gan adael gweddill o £1 0s. 6c. Y mae Mrs. Morgan wedi trosglwyddo'r swm hwn i'r Trysorydd at wasanaeth y gynulleidfa. Dylid sylwi fod yr oll o'r cyfranwyr uchod yn ddisgynyddion o'r dywededig Thomas Jenkins. I Mrs. Morgan ac i bob un o'r cyfranwyr dymunaf gyflwyno diolchgarwch gwresog y gynulleidfa. Dylwn sylwi hefyd fod Mr. Walters, Cyfreithiwr, Caerfyrddin, wedi gwneud ei waith yn ddi-dâl. Diolch iddo yntau.—D. EVANS (gweinidog Capelygroes).

GELLIONEN: Maen hynod. Yn mur capel Gellionen y mae maen hynod. Mae pob ymgais i gyfrif am dano i foddlonrwydd wedi methu, ond ei fod yn meddu hanes hynafol nid oes amheuaeth. Cyfeiria Edward Llwyd ati yn y flwyddyn 1786, a phrawf ei fod ef yn gwneud sylw o honno ei fod yn hynafol y pryd hwnw. Dyry ddesgrifiad o hono. Dywed ei fod cyn ei anafu tua phum troedfedd o hyd neu o uchder, dwy droedfedd o led, a dwy neu dair modfedd o drwch—fod y ddelw arno yn dwyn pen dyn, o dan y pen ryw fath o gwreinwaith, ac o dan hyny ddwy droed anghyfartal mewn maint i'r gwyneb. Buasai y maen ar y cyntaf ar y mynydd, ar garnedd gerrig. Oddiyno ceisiwyd ei symud gyda'r bwriad o'i wneud yn bost clwyd; ond yn y drafodaeth syrthiodd a thorrodd y pen ymaith. Ac yn y cyflwr a nodwyd y gwelodd Llwyd ef yn 1786, ar y cytir (*common*).

Rywbryd ar ol hyny dygwyd ef at Gapel Gellionen, a bu yno yn gwasanaethu fel esgynfaen (*horse block*) am flynyddau. Yn y flwyddyn 1800 pan awd ati i ail-adeiladu Capel Gellionen, rhoddwyd y maen yn mur y talcen sydd yn gwynebu y dwyrain, ac yno y mae hyd heddyw heb nemor neb yn sylwi arno—"*Clydach ar Cylch*," *gan T.V.E.*

LLYFR NEWYDD I DR. TUDOR JONES.—70 pp. Cloth bound: 1919. 2s. 6c.—Ei enw yw "The Training of Mind and Will." Yr wyf wedi ei ddarllen fy hunan gyda phleser a budd, ac yr wyf am gyfeirio sylw'r darllenydd ato. Treuliodd Dr. Jones bedwar diwrnod am lawer o wythnosau yn 1918 a 1919 yn annerch milwyr a morwyr y fyddin —pobl ieuainc o'r 18 oed yn mlaen. Yr oedd ychydig wedi cael addysg dda; ond am y mwyafrif, cyfyng a chul oedd eu sefyllfa feddyliol. Sut i ddiddori a dyrchafu y rhai hyn oedd ei awydd. Siomedig oedd ei ymgais ar y cyntaf, ond wedi treio ffordd hyn a'r ffordd arall llwyddodd i gael y sylw oedd am. Daeth y bobl ieuainc i ddeall ei fod yn siarad pethau yr awyddent am eu clywed—pethau oedd yn ddyrunol i bob un eu ddeall—wedi hynny tyrent i'w wrando. Treuliodd rai misoedd mewn gwersyll lle'r oedd 18,000 o'r bobl ieuainc hyn. Anerchai dorf o'i rhai hyn ddwy waith bob bore. Os oedd Dinasyddiaeth yn bwnc rhy fawr, yr oedd yn bosibl manylu ar aml i ochr o hono. Yr oedd lluaws o honynt nad oeddynt erioed wedi sylweddoli fod ganddynt hwy y fath beth a *meddwl*, a'r gallu i'w osod ar waith fel y mae eraill wedi wneud trwy'r oesau. Pwnc mawr oedd cael gafael ar yr *ewyllys* a'i gadw ar waith. Crynodeb o'i ddarlithiau yw y llyfr bychan hwn, a dymunwn ei gymell yn wresog i sylw y darllenydd. Bu Dr. Jones yn darlithio yn ddiweddar mewn chwech o wahanol fannau yn Aberdar, yn Llandyssul a mannau eraill yn Sir Aberteifi, ac y mae wedi gadael argraff rhagorol ar ei ol. Clywsom fod 46 o gopiau o'i lyfr wedi eu harchebu yn un o'r cyfarfodydd hyn. Ewch chwithau a gwnewch yr un modd.

"Tri pheth sy'n hardd ar Gymro,
Dysgu yn graff a ddysgo,
Cofio'i ddysg yn llwyr heb feth,
A dweyd y peth a fedro."

MEDDYLIA rhai fod Jonathan Edwards (1703—58) wedi gwneud mwy na neb arall, oddigerth Whitfield, feallai, i ddwyn i fewn Undodiaeth ei ddydd. Os gwnaeth, fe'i gwnaeth trwy ei Galfiniaeth eithafol.

GALL ffagoden danllyd osod corff dyn yn wenfflam, ond ni fydd ynddo yr un tuedd i oleuo deall dyn.

GALL ergyd a phastwn hollti penglog dyn, ond ni fedr y dyn feddwl ac ymresymu yn well oblegid hynny; er y dichon, o bosibl, feddwl yn fwy uniongred, ar ol dryllio ei ymenydd na llawer oedd yn feddiannol ar ei synwyrau.

Y PEDWAR pregethwr teithiol blaenaf yn eu dydd oedd William Wroth, William Erbury, Walter Cradock, Vavasor Powel. Ychydig yn ddiweddarach fe ddaeth Stephen Hughes.

ESGUSAWD Golygydd "Y Drysorfa," 1843:

Er Dafydd, pwy'n wr difai
A fu erioed, na feia rai?
A diau, bid gau, bid gwir,
Beiau, ar fyrdd, y beiir;
Tra bo llen ac awenydd,
A chân fwyn, achwyn a fydd!

NODION HANES.

Tebyg iawn mae'r awgrym cyntaf am ryw fath o gylchgrawn at wasanaeth yr Undodiaid a wnaethpwyd gan Richard Wright yn ei lythyr at Undodiaid Deheudir Cymru yn 1816.

Arferai'r Annibynwyr yn yr hen amser alw y Methodistiaid Calfiniaidd yn *Sentars Sychion*.

Yn Wandsworth, chwe' milldir o Lundain, ac ar lan y Tafwys, yr adeiladwyd y Capel Presbyteriaid cyntaf yn Mhrydain, 1572.

Ffurfiwyd yr Eglwys Fedyddiedig gyntaf yn Nghymru gan John Myles, yn Ilston, ger Abertawe, 1740.

Merthyrwyd Thomas Capper am heresi, drwy ei losgi, yn Nghaerdydd, 1542. Nid oes coffa am dano gan neb o'r haneswyr cyffredin. Ifano sydd wedi ei ddarganfod mewn hen ysgrif sydd yn Llyfrgell Caerdydd. Mae rhai o'r teulu yn Nghaerdydd hyd heddyw.

Dr. Miles Smith, esgob Caerloyw, ysgrifennodd y rhagymadrodd i'r Beibl Saesneg; ac achwynai yn dost fod Archesgob Bancroft wedi gwneud cyfnewidiadau pwysig ynddo heb ei gennad.

I'R EIRA.

Ni cherddaf, nid af o dŷ,
Yn mhoenydd wyf am hynny.

Ni'm twyllir o'm tŷ allan,
Ar air merch i'r eira mân.

E ddaru Dduw i'r ddaear ddu,
O gylchoedd ei gwyngalchu.

Blawd mân yw'r pâu ar bob pill,
Blawd wybr fel blodeu Ebrill.

Angylion gwynion, nid gwaeth,
Sy o'r ne yn saerniaeth.

Dafydd ab Gwilym.

Pur oer yw talpau yr ia,
Ac oerwynt rhew ac eira.

Gwilym Caledfryn.

Oer neu gwres, sych neu wlyb,
Rhew, eira, gwlaw neu genlli,
Fydd mis Chwefror, yn ol tyb
Seryddon Ynys Enlli.

Ceiriog.

Och! wele'n dod
Yr eira mân fel pluf o entrych nen,
Gan wynnu'r bryniau a'r dyffrynoedd oll.

Daniel Ddu.

O ble daeth y blodau hyn
Yn gawod o deg ewyn,
Nes gwbl arwisg blu eira
Ar odidog hiniog ha?

Tudno.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

LINDSEY PRESS PUBLICATIONS.

The Idealism of Jesus. By Sir Henry Jones. Preface by Rev. L. Jenkins Jones. Crown 8vo, 62 pp., 1s. net, postage 1½d.

Pauline Meditations. By James Drummond, M.A., LL.D., Litt.D. With Memorial Introduction by Edith Drummond and Professor G. Dawes Hicks. Crown 8vo, lxii+312 pp., 7s. 6d. net, postage 6d. Photogravure Portrait.

The Way of Life. New Testament Studies. By James Drummond, LL.D., Litt.D. Vol. I. The Parables of Jesus. Vol. II. The Lord's Prayer and the Teaching of Jesus. Crown 8vo, cloth, 2 vols., 8s. net, postage 6d.

The Spikenard and other Sermons. By Stopford A. Brooke, M.A., LL.D. With Introduction by Rev. J. H. Weatherall, M.A. Crown 8vo, 138 pp., 3s. 6d. net, postage 3d.

Labour and Religion. By Richard Lee, M.A. An Appeal to Labour on behalf of a Free and Progressive Religious Faith. Pamphlet [24 pp., 2d., postage ½d.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11
	£363,516,657	8	10

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England	63,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*	2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice	65,809,169	12	4
,, Investments :—			
War Loans, at cost (of which £432,979 15s is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	1,410,465	18	10
Sundry Investment	1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange	39,249,296	3	2
	232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..	99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans	14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares :—			
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,237,500 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 477,810 0 0			
	759,690	0	0
	£363,516,657	8	10